Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Mehefin 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Mehefin 2025


**Awdur:**
Dr Katy Orford, Senedd Research and Gruffydd Owen, Senedd Legal Services

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........ 2**

Datblygiad Llywodraeth Cymru ........ 2

Egwyddorion amgylcheddol ........ 3

Corff llywodraethiant amgylcheddol ........ 4

Targedau bioamrywiaeth ........ 5

**2. Crynodeb o'r darpariaethau ........ 7**

Rhan 1 – Amcan Amgylcheddol ac Egwyddorion Amgylcheddol ........ 7

Rhan 2 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ........ 9

Rhan 3 – Targedau Bioamrywiaeth ........ 13

Rhan 4 - Cyffredinol ........ 14

Yr Atodlenni ........ 15

**4. Y camau nesaf ........ 16**

Cyfnod 1 ........ 16

Cyfnod 2 ........ 16

Cyfnod 3 ........ 16

Cyfnod 4 ........ 16

Cydsyniad Brenhinol ........ 17

Cyflwynwyd **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol** sy'n cyd-fynd ag ef i'r Senedd ar 2 Mehefin 2025.

Nod y Bil yw sefydlu:

- amcan amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol;
- corff statudol, "Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru", sy'n gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan gyfraith amgylcheddol; a
- fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi cyd-destun i gyflwyniad y Bil, yn crynhoi ei ddarpariaethau fesul adran, ac yn nodi'r broses ddeddfwriaethol.

Bydd rhagor o gyhoeddiadau Ymchwil y Senedd ar gyfer y Bil yn cael eu cyhoeddi ar **dudalen adnoddau'r Bil**, wrth iddo deithio drwy'r Senedd.

# 1. Y cefndir

Mae'r adran hon yn rhoi cyd-destun i gyflwyniad y Bil, gan gynnwys ymgyngoriadau blaenorol. Mae'n rhoi gwybodaeth gefndirol am egwyddorion amgylcheddol a llywodraethiant gan gyfeirio at gyd-destun yr UE y mae'r DU wedi ymadael â hi. Mae hefyd yn ymdrin â pholisi a thargedau bioamrywiaeth ar gyfer Cymru o fewn y cyd-destun byd-eang.

## Datblygiad Llywodraeth Cymru

Mae Rhannau 1 a 2 o'r Bil, ar egwyddorion amgylcheddol a sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol, wedi'u datblygu mewn ymateb i fylchau yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Yn 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r UE**, ac yn 2020 sefydlodd **Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol** i lywio'r cynigion ymhellach.

Mae Rhan 3 o'r Bil, ar dargedau bioamrywiaeth, wedi'i datblygu yn dilyn '**archwiliad dwfn bioamrywiaeth**' Llywodraeth Cymru yn 2022 pan fo **grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr** wedi nodi **themâu allweddol** ac **argymhellion ar gyfer camau gweithredu penodol**, gan gynnwys gosod targedau bioamrywiaeth domestig. Roedd y gwaith hwn yng nghyd-destun **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal** (GBF) sy'n ymrwymiad rhyngwladol i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2030 a byw mewn cytgord â natur erbyn 2050.

Arweiniodd yr holl waith hwn at **Bapur Gwyn ar gyfer y Bil** y bu Llywodraeth Cymru yn ymateb iddo gan **ddiweddaru ei chynigion** y llynedd. Dadansoddodd Ymchwil y Senedd y cynigion hyn yn ei bapurau briffio:

- **Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol: dadansoddiad cymharol**; a
- **Targedau bioamrywiaeth ac egwyddorion amgylcheddol.**

## Egwyddorion amgylcheddol

Codwyd **galwadau am egwyddorion amgylcheddol domestig,** i roi sail ac arweiniad wrth lunio polisïau, yng nghyd-destun ymadael â'r UE. Mae hyn oherwydd nad oedd egwyddorion amgylcheddol yr UE wedi'u trosglwyddo i gyfraith y DU.

**Mae polisi amgylcheddol yr UE wedi'i seilio ar ei egwyddorion amgylcheddol** sy'n anelu at sicrhau safonau amgylcheddol uchel ac integreiddio trefniadau diogelu'r amgylchedd ar draws polisïau a gweithgareddau'r UE.

**Mae Erthygl 191(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU)** yn rhestru pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE:

- yr egwyddor atal;
- yr egwyddor y dylai niwed amgylcheddol, fel blaenoriaeth, gael ei unioni yn llygad y ffynnon;
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu; ac
- yr egwyddor ragofalus.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) yn cymhwyso'r egwyddorion hyn wrth ddatblygu, dehongli a gorfodi deddfwriaeth yr UE. Yn hytrach na bod yn berthnasol yn uniongyrchol i Aelod-wladwriaethau, mae egwyddorion amgylcheddol yr UE yn llifo drwy bolisïau a chyfreithiau'r UE.

Er nad yw'r egwyddorion wedi'u diffinio yn y TFEU, mae gan y Comisiwn Ewropeaidd **ganllawiau a gyhoeddwyd** ar gymhwyso'r egwyddor ragofalus. Diffinnir yr egwyddorion mewn mannau eraill hefyd, gan gynnwys mewn cyfraith ryngwladol a chyfraith achosion.

At hynny, mae egwyddor 'integreiddio' wedi'i hymgorffori yn **Erthygl 11 o'r TFEU** fel bod yn rhaid i'r gofynion o ran diogelu'r amgylchedd gael eu hintegreiddio wrth ddiffinio a gweithredu polisïau a gweithgareddau'r Undeb, yn enwedig gyda'r bwriad o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Ar ôl ymadael â'r UE, nid yw Cytuniadau'r UE a'r egwyddorion amgylcheddol yn gymwys yn y DU.

**Cynigiodd Llywodraeth Cymru** ddeddfu i lenwi'r bwlch ar ôl ymadael â'r UE yn ei hegwyddorion amgylcheddol domestig ei hun. Wrth ddatblygu'r egwyddorion hyn, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at bwysigrwydd ystyried egwyddorion

rhyngwladol ac egwyddorion yr UE. Yn ogystal, pwysleisiodd yr angen i ystyried cyd-destun Cymru e.e. egwyddorion rheoli cynaliadwy ar gyfer adnoddau naturiol presennol yn ***Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** a'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ***Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.***

Argymhellodd y **Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol** y dylid darparu ar gyfer pedair egwyddor graidd yr UE mewn deddfwriaeth benodol ar gyfer Cymru. Dywedodd y Grŵp y dylai'r rhain gael eu cefnogi gan amcan cyffredinol sy'n nodi uchelgeisiau amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys integreiddio ystyriaethau polisi amgylcheddol ar draws y llywodraeth. Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion hyn wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth.

Mewn rhannau eraill o'r DU, mae egwyddorion amgylcheddol domestig wedi'u sefydlu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon gan ***Ddeddf yr Amgylchedd 2021*** (Deddf Amgylchedd y DU) ac ar gyfer yr Alban gan ***Ddeddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021*** (Deddf Parhad yr Alban). Ymdrinnir â'r rhain mewn **papur briffio gan Ymchwil y Senedd.**

## Corff llywodraethiant amgylcheddol

Mae 'llywodraethiant amgylcheddol' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at system atebolrwydd, lle mae gweithrediad a chydymffurfiad â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus yn cael ei fonitro, ei wella a (lle bo angen) ei orfodi gan gorff annibynnol neu 'gorff gwarchod'.

**Yn yr UE**, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro'r modd mae'r Aelod-wladwriaethau yn rhoi cyfraith amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd ar waith ac yn cydymffurfio â hi. Gall dinasyddion a sefydliadau gwyno i'r Comisiwn os ydynt o'r farn bod cyfraith amgylcheddol wedi'i thorri. Os yw'r Comisiwn o'r farn bod achos i'w ateb, gall atgyfeirio achosion i Lys Cyfiawnder yr UE (y Llys Cyfiawnder). Gall hyn arwain at gamau gorfodi (gan gynnwys dirwyon) yn erbyn Aelod-wladwriaethau sy'n torri'r cyfreithiau hynny.

Pan adawodd y DU yr UE, fe adawodd system llywodraethiant amgylcheddol yr UE.

Tra bod Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n datblygu'r ddeddfwriaeth i lenwi'r hyn y mae rhanddeiliaid yn cyfeirio ato fel y **'bwlch llywodraethiant amgylcheddol'** ar ôl ymadael â'r UE, mae wedi sefydlu mesurau interim. Penodwyd **Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru** i ystyried gweithrediad cyfraith amgylcheddol cyn sefydlu corff llywodraethiant parhaol. Mae Pwyllgor

Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y Senedd wedi **gwneud gwaith craffu blynyddol** ar y trefniadau interim hyn, gan alw am sefydlu corff parhaol fel blaenoriaeth.

Mae cyrff llywodraethiant amgylcheddol domestig statudol wedi'u sefydlu ar gyfer gwledydd eraill y DU:

- Sefydlwyd **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd** yn gyfreithiol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon gan Ddeddf Amgylchedd y DU yn 2021; a
- Sefydlwyd **Safonau Amgylcheddol yr Alban** yn gyfreithiol gan Ddeddf Parhad yr Alban yn 2021.

Mae **papur briffio arall gan Ymchwil y Senedd** yn ymdrin â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban a'u seiliau cyfreithiol.

## Targedau bioamrywiaeth

Yn 2021, **datganodd y Senedd** 'argyfwng natur' er mwyn cydnabod y dirywiad mewn bioamrywiaeth a achoswyd gan bobl.

Yn 2022, ymunodd y DU ag ymrwymiad rhyngwladol **Cynhadledd y Partïon i'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth (COP15)**. Mae hyn yn cynnwys cyfres o 23 o dargedau a phedair nod a elwir ar y cyd yn **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal. Nod cyffredinol y Fframwaith** yw sicrhau byd sy'n byw mewn cytgord â natur erbyn 2050, ac atal colli bioamrywiaeth a gwrthdroi hynny erbyn 2030, o'i gymharu â llinell sylfaen 2020. Elfen proffil uchel o'r Fframwaith yw'r Targed o **'30 erbyn 30'** sef, i ddiogelu o leiaf 30% o dir, dyfrffyrdd mewndirol a moroedd erbyn 2030. Fel maes datganoledig, mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae, a nod yr **archwiliad dwfn bioamrywiaeth** yw datblygu cyfres o gamau gweithredu ar y cyd i gyflawni'r targed '30 erbyn 30'.

Mae amrywiaeth o bolisïau a dyletswyddau statudol presennol i adfer bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur,** a pholisïau/dyletswyddau sy'n deillio o ***Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** (ymhlith eraill **a amlinellir mewn papur briffio gan Ymchwil y Senedd).** Gwnaeth Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith **gynnal ymchwiliad** i fioamrywiaeth gan alw am weithredu polisi bioamrywiaeth yn well, a gwell adnoddau ar ei gyfer. Tynnodd sylw at siom am gyflymder datblygu targedau bioamrywiaeth.

Yn 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru, ochr yn ochr â chyrff statudol cadwraeth natur eraill y DU, adroddiad **Nature Positive 2030**. Roedd yn nodi bod angen targedau cadarnhaol o ran byd natur, fel bod nodau o ran byd natur yn cael eu gosod ar yr un lefel ag uchelgeisiau newid yn yr hinsawdd, a hefyd:

> Setting and achieving targets, underpinned by a strong evidence base, guides the type and scale of action required and encourages action by others.

Ym mis Mawrth, ysgrifennodd dros 300 o sefydliadau o dan faner Climate Cymru **lythyr agored at y Prif Weinidog yn galw am 'Bil Natur-bositif'** sy'n ymgorffori ymrwymiad i Gymru Natur-bositif yn y gyfraith, wedi'i seilio gan dargedau adfer natur sy'n gyfreithiol rwymol.

O ran gwledydd eraill y DU, mae Deddf Amgylchedd y DU yn darparu'r sail statudol ar gyfer cyflwyno targedau bioamrywiaeth a fframwaith ehangach ar gyfer Lloegr. Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyflwyno targedau bioamrywiaeth drwy ei **Bil Amgylchedd Naturiol (Yr Alban)**. Cyflwynwyd y Bil hwn ar 19 Chwefror 2025 ac mae ar ei daith drwy Senedd yr Alban ar hyn o bryd.

Mae **papur briffio arall gan Ymchwil y Senedd** yn trafod targedau bioamrywiaeth yn fanylach ac yn cymharu dulliau yng ngwledydd eraill y DU.

# 2. Crynodeb o'r darpariaethau

## Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud fesul adran.

Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnwys 45 o adrannau a phedair Atodlen. Mae wedi'i rannu'n bedair Rhan fel a ganlyn: -

**Rhan 1 - Amcan Amgylcheddol ac Egwyddorion Amgylcheddol**

- Mae Rhan 1 yn sefydlu egwyddorion amgylcheddol penodol ac amcan amgylcheddol. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a CNC, wrth lunio polisi, ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill, wrth gynnal asesiadau amgylcheddol, gymhwyso'r egwyddorion, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

**Rhan 2 - Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru**

- Mae Rhan 2 yn sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol annibynnol, Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (y "**SLlAC**") i ddarparu goruchwyliaeth strategol ar ofynion ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; gwneud cyfraith amgylcheddol effeithiol; gweithredu a chymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol; ac i ddwyn yr awdurdodau cyhoeddus hynny i gyfrif.

**Rhan 3 - Targedau Bioamrywiaeth, Etc.**

- Mae Rhan 3 yn diwygio *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* i sefydlu fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth gyda'r nod o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, yn ogystal â gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau iddi.

**Rhan 4 - Cyffredinol**

- Mae Rhan 4 yn gwneud y darpariaethau cyffredinol arferol, megis dehongli a chychwyn.

### Rhan 1 – Amcan Amgylcheddol ac Egwyddorion Amgylcheddol

Mae **adran 1** o'r Bil yn sefydlu'r "amcan amgylcheddol".

Fe'i diffinnir fel cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r

amgylchedd, gyda golwg, yn benodol, ar:

- diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*,
- cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu,
- lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo, a
- cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Mae **adran 2** yn sefydlu pedair egwyddor amgylcheddol:

- yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd;
- yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;
- yr egwyddor y dylid cywiro difrod amgylcheddol fel mater o flaenoriaeth yn y tarddle; a
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

Mae **adran 3** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol drwy:

- rhoi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru sy'n cael, neu a allai gael, unrhyw effaith ar yr amgylchedd, a
- integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath.

Mae **adran 4** yn diwygio'r ddeddfwriaeth a sefydlodd CNC i osod dyletswydd arno i roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru, ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath.

Mae **adran 5** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol drwy:

- rhoi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol wrth asesu cynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud â Chymru o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004; a
- integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny.

At ddibenion adrannau 5 a 6 o'r Bil, diffinnir awdurdod cyhoeddus fel:

- Awdurdod Cymreig datganoledig o dan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y bôn, rhestr o oddeutu 100 o gyrff cyhoeddus Cymreig a nodir yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, neu gyrff cyhoeddus eraill sy'n

bodloni'r diffiniad statudol o 'awdurdod Cymreig datganoledig' fel y diffinnir 'devolved Welsh authority' yn gul yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

- Y rhai a restrir ym mharagraff 9(2) neu 9(6) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

| Awdurdodau cyhoeddus paragraff 9(2) | Awdurdodau cyhoeddus paragraff 9(6) |
|---|---|
| ▪ y Comisiwn Etholiadol;<br>▪ yr Asiantaeth Safonau Bwyd;<br>▪ yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr;<br>▪ y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu;<br>▪ yr Awdurdod Meinweoedd Dynol;<br>▪ Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG neu the NHS Business Services Authority;<br>▪ Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG neu NHS Blood and Transplant;<br>▪ y Brifysgol Agored; a<br>▪ y Rheolydd Hawliau Amrywogaethau Planhigion. | ▪ ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth;<br>▪ y Cyngor Defnyddwyr Dŵr;<br>▪ Prif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru; a<br>▪ swyddogion cofrestru etholiadol. |

Mae **adran 6** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi "*datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd*" ac yn nodi'r hyn y mae rhaid i'r datganiad ei gynnwys, gan gynnwys: esboniad o sut mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd, a chanllawiau i awdurdodau cyhoeddus ynghylch sut i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil.

Mae **adran 7** yn nodi'r gofynion gweithdrefnol ac ymgynghori mewn cysylltiad â llunio a chyhoeddi'r datganiad sy'n ofynnol o dan adran 6.

## Rhan 2 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

Mae **adran 8** yn sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ("**SLlAC**") fel corff corfforedig.

Mae **adran 9** yn darparu bod rhaid i SLlAC arfer ei swyddogaethau at y diben

cyffredinol o gyfrannu at yr amcan amgylcheddol mewn modd diduedd, gwrthrychol, cymesur a thryloyw.

Mae **adran 10** yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC lunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynnwys y strategaeth.

Mae **adran 11** yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC fonitro cydymffurfedd awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol (fel y'i diffinnir yn adran 29) a gweithredu a chymhwyso cyfraith amgylcheddol. Mae hefyd yn rhoi disgresiwn i SLlAC adrodd ar unrhyw fater y mae'n ofynnol iddo ei fonitro, neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwneud cyfraith amgylcheddol neu ei heffeithiolrwydd.

Mae **adran 12** yn darparu y caiff SLlAC roi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch cynigion newydd ar gyfer deddfwriaeth amgylcheddol, neu newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol. Mae gan SLlAC ddisgresiwn ynghylch a yw'n rhoi cyngor ar gais gan Weinidogion Cymru, ond mae rhaid iddo egluro mewn datganiad os yw'n dewis gwrthod.

Mae **adran 13** yn darparu y caiff SLlAC ddyroddi neu roi canllawiau ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Os darperir y canllawiau i awdurdod cyhoeddus a'u bod yn cynnwys argymhellion, caiff SLlAC ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ymateb i argymhelliad o'r fath.

Mae **adran 14** yn rhoi'r pŵer i SLlAC gyflwyno hysbysiadau gwybodaeth i awdurdodau cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi gwybodaeth sy'n rhesymol ofynnol at ddibenion arfer ei swyddogaethau. Mae gan awdurdodau cyhoeddus o leiaf ddau fis i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Mae **adran 15** yn rhoi'r pŵer i SLlAC ymchwilio (ar ei chymhelliad ei hun, neu mewn ymateb i unrhyw sylwadau a gyflwynir iddi gan unrhyw berson) i unrhyw fater sy'n ymwneud ag:

- a yw awdurdod cyhoeddus yn methu, neu wedi methu ar unrhyw adeg â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol (gan gynnwys unrhyw achosion o dorri cyn i'r Bil ddod yn gyfraith);
- sut y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu a'i chymhwyso; neu
- effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol.

Mae **adran 16** yn rhoi'r pwer i SLlAC gyflwyno 'hysbysiadau cydymffurfio' i awdurdodau cyhoeddus os yw'n ystyried eu bod yn methu â chydymffurfio â

chyfraith amgylcheddol, neu wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth. Ymhlith pethau eraill, rhaid i hysbysiad cydymffurfio bennu'r camau gweithredu sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r methiannau honedig, ac amserlen o 30 o ddiwrnodau o leiaf o gyflwyno'r hysbysiad ar gyfer cydymffurfio. Mae gan yr awdurdod cyhoeddus hawl i wneud cais am adolygiad o unrhyw hysbysiad cydymffurfio cyn y terfyn amser ar gyfer cydymffurfio (gweler adran 18).

Mae **adran 17** yn rhoi'r pŵer i SLlAC i gyflwyno 'hysbysiadau cydymffurfio brys' i awdurdodau cyhoeddus pan fo'n ystyried bod angen cymryd camau ar frys i atal neu liniaru risg o niwed difrifol i'r amgylchedd neu i iechyd pobl. Caiff hysbysiadau cydymffurfio brys bennu cyfnod o 7 niwrnod o leiaf, ond o lai na 30 o ddiwrnodau ar gyfer cydymffurfio.

Mae **adran 18** yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor adolygu SLlAC adolygu hysbysiad cydymffurfio os yw awdurdod cyhoeddus yn gwneud cais ysgrifenedig iddi wneud hynny. Caiff diffygion dibwys eu hanwybyddu a rhaid i'r pwyllgor naill ai gadarnhau'r hysbysiad cydymffurfio, tynnu'r hysbysiad cydymffurfio yn ôl neu amrywio'r hysbysiad cydymffurfio ar ôl adolygiad. Mae adolygiad yn cael yr effaith o rewi'r terfyn amser ar gyfer cydymffurfio gan awdurdod cyhoeddus.

Mae **adran 19** yn rhoi'r pŵer i SLlAC wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus gymryd y cam gweithredu a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio os yw'n ystyried bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â chymryd y cam gweithredu penodedig o fewn y cyfnod penodedig. Caiff y Llys orchymyn i'r awdurdod cyhoeddus gymryd y camau penodedig, gymryd y camau priodol fel y'u hamrywir gan y Llys neu caiff yn y pen draw dynnu unrhyw ran o hysbysiad y mae'n ei ystyried yn afresymol yn ôl.

Mae **adran 20** yn rhoi'r pŵer i SLlAC gyhoeddi 'adroddiad gwella' os yw'n ystyried bod awdurdod cyhoeddus yn methu neu wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ar unrhyw adeg, neu wedi methu â gweithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol. Caiff hefyd gyhoeddi adroddiad gwella os yw'n ystyried bod Gweinidogion Cymru neu awdurdod cyhoeddus arall wedi methu â gwneud cyfraith amgylcheddol effeithiol.

Mae **adran 21** yn nodi'r manylion penodol sy'n ofynnol mewn adroddiad gwella. Mae'r rhain yn cynnwys manylion y methiannau honedig, effaith y methiannau honedig ac argymhellion o ran y camau gweithredu i Weinidogion Cymru eu cymryd mewn ymateb i fethiannau o'r fath gydag amserlenni cysylltiedig.

Mae **adran 22** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i adroddiad

gwella drwy gyhoeddi 'cynllun gwella' o fewn chwe mis mewn amgylchiadau arferol, neu o fewn naw mis os oes angen ymgynghoriad. Rhaid i gynllun gwella nodi'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ei wneud mewn ymateb i'r argymhellion gydag amserlenni cysylltiedig, neu esboniad os nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu gweithredu'r argymhellion.

Mae **adran 23** yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i gydweithredu â SLlAC. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth rhesymol i SLlAC mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau, a gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys methiannau honedig a nodwyd gan SLlAC yn gyflym.

Mae **adran 24** yn darparu, ymhlith pethau eraill, nad yw'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus ddarparu unrhyw wybodaeth i SLlAC y byddai ganddo hawlogaeth i wrthod ei darparu mewn cysylltiad ag achos sifil neu o dan gyfreithiau diogelu data.

Mae **adran 25** yn gosod rhwymedigaethau cyfrinachedd ar SLlAC mewn cysylltiad â gwybodaeth a gohebiaeth a ddatgelir iddi, neu a gynhyrchir ganddi, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol.

Mae **adran 26** yn gosod rhwymedigaethau cyfrinachedd ar awdurdodau cyhoeddus mewn cysylltiad â gohebiaeth sy'n ymwneud â hysbysiadau gwybodaeth, hysbysiadau cydymffurfio neu adroddiadau gwella, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol.

Mae **adran 27** yn nodi bod gwybodaeth a ddelir gan SLlAC neu awdurdod cyhoeddus o dan y Bil yn 'wybodaeth amgylcheddol' at ddibenion *Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004*. Mae'r dynodiad hwn yn cael yr effaith o ganiatáu i awdurdod cyhoeddus wrthod datgelu o dan y rheoliadau hynny os byddai'n peryglu cyfrinachedd ymchwiliad SLlAC.

Mae **adran 28** yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff o Lywodraeth Cymru i SLlAC.

Mae **adran 29** yn diffinio **'**cyfraith amgylcheddol' at ddibenion Rhan 2 o'r Bil. Fe'i diffinnir drwy gyfeirio at ddarpariaeth ddatganoledig, sydd yn y bôn yn golygu deddfwriaeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd sydd wedi'i wneud, neu y gellid ei wneud, gan y Senedd.

Mae **adran 30** yn diffinio "awdurdod cyhoeddus" at ddibenion Rhan 2 o'r Bil.

Mae **adran 31** yn egluro bod cyfeiriadau at "effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol" yn Rhan 2 o'r Bil yn gyfeiriadau at ei heffeithiolrwydd o ran cyfrannu at ddiogelu'r

amgylchedd.

Mae **adran 32** yn egluro bod cyfeiriadau at "methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol" yn Rhan 2 o'r Bil yn gyfeiriadau at yr awdurdod cyhoeddus perthnasol sy'n arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n groes i gyfraith amgylcheddol, neu sy'n methu ag arfer ei swyddogaethau pan fo'r methiant yn groes i gyfraith amgylcheddol.

## Rhan 3 – Targedau Bioamrywiaeth

Mae **adran 33** yn diwygio Rhan 1 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* i fewnosod saith adran newydd sydd gyda'i gilydd yn cyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth.

- Mae adran 37 o'r Bil yn mewnosod adran newydd 6A, a drafodir isod.
- Mae adran newydd 6B yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i osod targedau mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru os ydynt wedi'u bodloni y byddai cyrraedd y targed yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Rhaid i bob targed bennu safon sydd i'w chyflawni, y mae modd ei mesur yn wrthrychol, a dyddiad erbyn pryd y mae'r safon i'w chyflawni.
- Mae adran newydd 6C yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod rheoliadau drafft gerbron y Senedd o fewn tair blynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol gan osod targed mewn cysylltiad ag o leiaf un mater ym mhob un o'r pedwar maes blaenoriaeth a nodir yn adran newydd 6C.
- Mae adran newydd 6D yn nodi'r broses y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn wrth osod unrhyw darged o dan y fframwaith, gan gynnwys ceisio cyngor gan arbenigwr annibynnol.
- Mae adran newydd 6E yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw dargedau a osodir mewn rheoliadau yn cael eu cyrraedd.
- Mae adran newydd 6F yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddynodi awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â tharged a osodir o dan y fframwaith. Effaith dynodi yw gofyniad i gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd y targed sy'n berthnasol i'r awdurdod cyhoeddus.
- Mae adran newydd 6G yn nodi pryd y caiff Gweinidogion Cymru, neu pryd y mae rhaid iddynt, adolygu unrhyw dargedau bioamrywiaeth a osodir o dan adran newydd 6B.
- Yn gyffredinol, mae adran newydd 6H yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag

dirymu neu ostwng targed bioamrywiaeth a osodir o dan adran 6B oni bai bod eithriad yn gymwys.

- Mae adran newydd 6I yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad mewn cysylltiad â tharged ar neu cyn y dyddiad erbyn pryd y mae i'w gyrraedd. Rhaid i'r datganiad nodi a yw'r targed wedi'i gyrraedd. I'r graddau nad yw wedi'i gyrraedd, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o fewn 12 mis yn esbonio pam nad yw'r targed wedi'i gyrraedd ac yn nodi'r camau arfaethedig i sicrhau bod y targed yn cael ei gyrraedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae **adran 34** yn diwygio adran 6 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* i ychwanegu darpariaeth sy'n gorfodi awdurdod cyhoeddus a ddynodir o dan adran newydd 6F i gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd targed y mae wedi'i ddynodi mewn perthynas ag ef.

Mae **adran 35** yn diwygio adran 6 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu mewn cynllun pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y targedau bioamrywiaeth yn cael eu cyrraedd, pryd y maent yn bwriadu cymryd y camau hynny a sut y bydd y targedau, os cânt eu cyrraedd, yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Mae **adran 36** yn diwygio adran 6 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus esbonio mewn adroddiad beth mae wedi'i wneud i gyfrannu at gyrraedd y targed bioamrywiaeth y mae wedi'i ddynodi iddo (pan fo hynny'n berthnasol). Yn adroddiad adran 6 Gweinidogion Cymru, ychwanegir darpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y targedau bioamrywiaeth a osodir, ac a ydynt yn debygol o gael eu cyrraedd.

Mae **adran 37** yn diwygio *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* i ychwanegu adran newydd 6A sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi 'adroddiad gwerthuso' cyn diwedd 2031 a phob tair blynedd wedi hynny. Rhaid i'r adroddiad gwerthuso amlinellu asesiad Gweinidogion Cymru o effaith ac effeithiolrwydd y cynigion a nodir yn eu cynlluniau i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan adran 6 o Ddeddf 2016.

Mae **adran 38** diwygio *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth.

## Rhan 4 - Cyffredinol

Mae **adran 39** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol yn ôl yr angen er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil.

Mae **adran 40** yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Bil, gan nodi gweithdrefn berthnasol y Senedd ar gyfer gwneud rheoliadau.

Mae **adran 41** yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â dogfennau, hysbysiadau a chyfarwyddydau y mae'n ofynnol eu darparu o dan y Bil gan gynnwys sut y caniateir danfon yr eitemau hynny, a phryd y bernir eu bod wedi'u cyflwyno.

Mae **adran 42** yn ddarpariaeth ddehongli sy'n diffinio geiriau a thermau penodol a ddefnyddir yn y Bil.

Mae **adran 43** yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i statudau penodol mewn cysylltiad â sefydlu SLlAC.

Mae **adran 44** yn nodi pryd y daw pob darpariaeth yn y Bil i rym.

Mae **adran 45** yn darparu'r enw byr sef "*Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026*" neu "*Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026*".

## Yr Atodlenni

Mae **Atodlen 1** (a gyflwynir gan adran 8) yn gwneud darpariaeth sy'n gysylltiedig â swyddogaethau a threfniadau llywodraethu SLlAC.

Mae **Atodlen 2** (a gyflwynir gan adran 10) yn gwneud darpariaeth sy'n manylu ar gynnwys gofynnol strategaeth SLlAC a lunnir ac a gyhoeddir o dan adran 10 o'r Bil.

Mae **Atodlen 3** (a gyflwynir gan adran 28) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud un neu ragor o gynlluniau trosglwyddo staff sy'n darparu i aelodau o staff Llywodraeth Cymru ddod yn aelodau o staff SLlAC.

Mae **Atodlen 4** (a gyflwynir gan adran 43) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i statudau penodol mewn cysylltiad â sefydlu SLlAC.

# 4. Y camau nesaf

Nawr bod y Bil wedi'i gyflwyno, mae'n destun proses y Senedd o graffu ar Filiau.

## Cyfnod 1

**Mae'r Bil wedi'i gyfeirio at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** ar gyfer ei waith craffu Cyfnod 1 ar 'egwyddorion cyffredinol' y Bil. Bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth gan randdeiliaid a Huw Irranca-Davies AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil a'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Bydd hefyd yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig ar y Bil dros yr wythnosau nesaf drwy ymgynghoriad ar-lein cyn llunio adroddiad yn seiliedig ar ei ystyriaeth o'r Bil gydag argymhellion. Caiff pwyllgorau eraill hefyd lunio adroddiadau ar y Bil.

Wedyn, bydd disgwyl i'r Senedd gyfan drafod egwyddorion cyffredinol y Bil (y ddadl Cyfnod 1).

## Cyfnod 2

Os bydd y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd yn symud i Gyfnod 2. Fodd bynnag, cyn y gall trafodion Cyfnod 2 ddechrau, rhaid i'r Senedd gytuno ar benderfyniad ariannol, yn cefnogi'r gwariant angenrheidiol i wireddu'r Bil. Os bydd penderfyniad ariannol yn cael ei gynnig, ac y bydd y Senedd yn cytuno arno, gall trafodion Cyfnod 2 ddechrau a bydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn cael y cyfle i gynnig gwelliannau i'r Bil a phleidleisio arnynt.

## Cyfnod 3

Byddai'r Bil wedyn yn destun rhagor o welliannau gan holl Aelodau'r Senedd, a byddai'n cael ei drafod a byddai pleidlais arno yn y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 3.

Mae cyfnodau diwygio ychwanegol hefyd yn bosibl; gall y Bil symud i drafodion Cyfnod 3 pellach neu Gyfnod Adrodd.

## Cyfnod 4

Bydd y Bil yn destun pleidlais derfynol yn y Cyfarfod Llawn ynghylch a ddylid pasio'r ddeddfwriaeth yng Nghyfnod 4.

## Cydsyniad Brenhinol

Os bydd y Bil yn cwblhau ei holl gyfnodau deddfwriaethol, bydd yn dod yn gyfraith fel Deddf gan Senedd Cymru ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol.